**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Adroddiad ar Oblygiadau Ariannol Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru)

Awst 2010

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8026
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Finance.Comm@wales.gsi.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Adroddiad ar Oblygiadau Ariannol Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru)

Awst 2010

## Y Pwyllgor Cyllid

Cylch gwaith y Pwyllgor Cyllid yw sicrhau y craffir yn briodol ar gyllideb a gwariant Llywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad, yr Ombwdsmon, y Comisiynydd Plant, y Comisiynydd Pobl Hŷn a'r gwahanol Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a Chyrff GIG.

Yn gyffredinol, mae gan y Pwyllgor dair prif swyddogaeth:

–ystyried cynigion ar gyfer cyllideb y Cynulliad a chyflwyno adroddiad arnynt;
–ystyried yr wybodaeth ariannol a gyflwynir gyda Mesurau Cynulliad, a lle bo'n briodol, cyflwyno adroddiad arni;
–ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwariant y Llywodraeth neu wariant o Gronfa Gyfunol Cymru, neu sy'n effeithio ar y gwariant hwnnw.

## Pwerau

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mehefin 2007. Manylir ar ei bwerau yn Rheol Sefydlog 14 Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r rhain ar gael yn: **www.cynulliadcymru.org**.

## Aelodau'r Pwyllgor



**Angela Burns (Cadeirydd)**
Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Plaid Geidwadol Cymru



**Lorraine Barrett**
De Caerdydd a Phenarth
Llafur



**Peter Black**
Gorllewin De Cymru
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



**Andrew Davies**
Gorllewin Abertawe
Llafur



**Chris Franks**
Canol De Cymru
Plaid Cymru



**Brian Gibbbons**
Aberafan
Llafur



**Ann Jones**
Dyffryn Clwyd
Llafur



**Nick Ramsay**
Plaid Geidwadol Cymru
Sir Fynwy



**Janet Ryder**
Gogledd Cymru
Plaid Cymru

**Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru)**

## Cyflwyniad

1. Mae Rheol Sefydlog 14.2 yn nodi:

*Caiff y Pwyllgor [Cyllid] hefyd ystyried y canlynol ac, os yw'n gweld yn dda, gyflwyno adroddiad arnynt:*

*gwybodaeth ariannol yn y memoranda esboniadol sy'n cyd-fynd â Mesurau Cynulliad arfaethedig;*

2. Mae Rheol Sefydlog 23.18 yn nodi:

*Ar yr un pryd ag y bydd [yr Aelod cyfrifol] yn cyflwyno Mesur arfaethedig, rhaid hefyd gosod Memorandwm Esboniadol y mae'n rhaid iddo:*

*(vi) nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol:*

*(a) unrhyw gostau gweinyddol, costau cydymffurfio a chostau eraill y byddai darpariaethau'r Mesur arfaethedig yn arwain atynt;*
*(b) dros ba gyfnodau amser y disgwylir i'r costau hynny godi; a*
*(c) lle y byddai'r costau'n syrthio;*

3. Cyflwynodd y Gweinidog dros Dreftadaeth, sef Alun Ffred Jones, AC, Fesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru) i'r Pwyllgor Cyllid yn ei gyfarfod ar 17 Mehefin 2010. Hefyd, ystyriodd y Pwyllgor Cyllid dystiolaeth ysgrifenedig ar y mesur arfaethedig oddi wrth Fwrdd yr Iaith Gymraeg, a chymerodd dystiolaeth ar lafar ar 1 Gorffennaf 2010 oddi wrth Meirion Prys Jones, ei Brif Weithredwr, a Gwyn Jones, ei Gyfarwyddwr Polisi a Therminoleg. Wrth ystyried y Mesur arfaethedig hwn, fe roddodd y Pwyllgor Cyllid sylw hefyd i'r ymatebion a dderbyniodd Pwyllgor Deddfwriaethol 2 yn ei ymgynghoriad ar y Mesur arfaethedig.

## Cefndir

4. Dywed y Memorandwm Esboniadol mai bwriad Mesur arfaethedig y Gymraeg (Cymru) yw moderneiddio'r fframwaith

cyfreithiol cyfredol sy'n cael ei lywodraethu'n bennaf gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ynghylch defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r Mesur arfaethedig yn cynnwys darpariaeth o ran statws swyddogol y Gymraeg. Mae'n sefydlu swydd Comisiynydd y Gymraeg a fydd yn disodli Bwrdd yr Iaith Gymraeg a sefydlwyd dan Ddeddf 1993.

5. Bydd gan y Comisiynydd swyddogaeth gyffredinol i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg a hybu cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd hyn yn cynnwys y pŵer i ymchwilio i honiadau o ymyrraeth â rhyddid unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg â'i gilydd mewn amgylchiadau penodol. Bydd Panel Cynghori'n cefnogi'r Comisiynydd.

6. Mae'r Mesur arfaethedig yn gwneud darpariaeth o ran datblygu safonau ymddygiad sy'n ymwneud â'r Gymraeg a fydd yn raddol yn disodli'r system bresennol o gynlluniau iaith y darperir ar eu cyfer gan Ddeddf 1993.

7. Mae'r Mesur arfaethedig hefyd yn cynnwys darpariaethau o ran gorfodi dyletswyddau a gynhwysir yn y safonau, ac o ran hawl unigolion i herio'r dyletswyddau hynny sy'n berthnasol iddyn nhw. Bydd hyn yn cynnwys creu Tribiwnlys y Gymraeg.

**<u>Costau sy'n gysylltiedig â'r Mesur</u>**

8. Dywed y Memorandwm Esboniadol[1] y bydd y £13.8miliwn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei ddefnyddio ar hyn o bryd i noddi'r Bwrdd yn cael ei ddefnyddio i dalu am gostau uniongyrchol sefydlu'r strwythur y mae'r Mesur arfaethedig yn darparu ar ei gyfer, ac eithrio'r costau untro a fydd yn gysylltiedig â rheoli'r prosiect gweithredu. £200,000 fydd y costau untro hyn yn ôl yr asesiad, a defnyddir cyllidebau presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru i dalu amdanynt. Dywed y Memorandwm Esboniadol hefyd[2] y bydd yna gostau eraill yn gysylltiedig â gweithredu'r prosiect, megis costau hyfforddi, ymsefydlu, TGCh a llety a chyfleusterau. Disgwylir mai rhyw £270,000 fydd y costau hyn, a defnyddir dyraniad ariannol y Bwrdd i dalu amdanynt. Fodd bynnag, bydd modd eu lledaenu dros ddwy flynedd.

---

[1] Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru), Memorandwm Esboniadol, para 8.56
[2] Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru), Memorandwm Esboniadol, para 8.51

9. Dywed y Memorandwm Esboniadol[3] mai £4.2miliwn y flwyddyn yw'r amcangyfrif gorau o gostau rhedeg y strwythur y mae'r Mesur arfaethedig yn darparu ar ei gyfer, ac y bydd y £9.6miliwn sy'n weddill (llai £270,000 ar gyfer costau gweithredu) yn parhau i ariannu rhaglenni sydd â'r nod o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, boed gan y Comisiynydd neu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Isod ceir dadansoddiad o'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r Mesur, ac a nodwyd yn y ME ac yn llythyr y Gweinidog dros Dreftadaeth dyddiedig 29 Mehefin.

**Costau i'w talu o gyllideb Bwrdd yr Iaith Gymraeg**

a. **Sefydlu'r strwythur y mae'r Mesur arfaethedig yn darparu ar ei gyfer** (gan gynnwys £270,000 ar gyfer hyfforddi, TGCh ac ati (gweler uchod)) ond nid costau gweithredu'r prosiect, sef £200,000, a fydd yn cael eu hariannu'n uniongyrchol o gronfeydd Llywodraeth Cynulliad Cymru.

b. **Costau rhedeg ar gyfer y Comisiynydd**
£4.0miliwn[4] ar sail costau sy'n gysylltiedig ag ariannu Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

c. **Costau eraill** mewn perthynas â:

- Herio gorfodi safonau. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dyfynnu ffigur o £2,000 y dydd ar gyfer costau cyfreithiol[5] a dywed[6] mai'r disgwyl yw y bydd nifer yr heriau'n isel, ond nad yw'n bosibl rhagweld cost her ar gyfartaledd gan mai'r sefydliad fydd yn penderfynu ar natur pob un.
- Ymchwilio i achosion honedig o dorri safonau. Dywed y Memorandwm Esboniadol y bydd y costau hyn yn dibynnu ar y galw, ac nad yw'n bosibl rhagweld costau cyfartalog ymchwiliad o'r fath[7]. Ar sail ffigyrau 'darluniadol' mae'n awgrymu ffigur o rhwng £6,000 a £10,000 y flwyddyn[8].

[3] Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru), Memorandwm Esboniadol, para 8.57-8.58
[4] Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru), Memorandwm Esboniadol, para 8.42
[5] Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru), Memorandwm Esboniadol, para 8.34
[6] Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru), Memorandwm Esboniadol, para 8.36
[7] Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru), Memorandwm Esboniadol, para 8.38
[8] Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru), Memorandwm Esboniadol, para 8.39

- Costau penodi aelodau'r panel cynghori a rhoi tâl cydnabyddiaeth iddynt. Rhwng £40,000 a £70,000 y flwyddyn[9].
- Costau rhedeg ysgrifenyddiaeth y tribiwnlys. Costau'n anhysbys[10].
- Costau'r tribiwnlys. Ffigur o £115,000 y flwyddyn, ac mae £20,000 ar gyfer costau untro wedi'i awgrymu fel enghraifft[11] ond bydd y costau go iawn yn dibynnu ar y galw.
- Ymchwiliadau gan y Comisiynydd i achosion honedig o ymyrryd â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd costau'r rhain yn amrywio yn ôl nifer y cwynion a dderbynnir, ond mae'r ffigyrau diweddaraf yn awgrymu cyfanswm costau o £600 y flwyddyn[12].
- Pwerau'r Comisiynydd i ddarparu cymorth cyfreithiol i unigolyn. Ceir amcangyfrif o £10,000 y flwyddyn yn y Memorandwm Esboniadol[13] ond bydd y gost go iawn yn dibynnu ar y galw.
- Costau prosesau ymgynghori fel rhan o ymchwiliadau safonau. Heb eu nodi[14] – yn dibynnu ar y galw.

**Costau ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru**

- Costau untro sy'n gysylltiedig â rheoli gweithredu'r prosiect (£200,000 yn ôl yr asesiad, i ddod o'r Adran Dreftadaeth).
- Cost paratoi Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ar gyfer safonau a rheoliadau; nid yw'r costau hyn wedi'u cynnwys yn y Memorandwm Esboniadol[15].

**Costau ar gyfer sefydliadau allanol**

**Sefydliadau sydd â Chynlluniau Iaith ar hyn o bryd**

10. Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi ffigyrau ar gyfer y costau y mae'n debygol y bydd yn rhaid i sefydliadau eu talu, y safonau y bydd gofyn iddynt eu cyflawni neu'r system reoleiddio a

---

[9] Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru), Memorandwm Esboniadol, para 8.45
[10] Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru), Memorandwm Esboniadol, para 8.47
[11] Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru), Memorandwm Esboniadol, para 8.48
[12] Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru), Memorandwm Esboniadol, para 8.54
[13] Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru), Memorandwm Esboniadol, para 8.55
[14] Pwyllgor Cyllid FIN (3)-12-10 papur 4, *Goblygiadau Ariannol Mesur Arfaethedig y Gymraeg – Gwybodaeth bellach gan y Gweninidog dros Dreftadaeth,* 1 Gorffennaf 2010
[15] Ibid

fydd yn eu gorfodi.  Dywed[16] y bydd y Comisiynydd yn datblygu safonau, ac y bydd y broses o ddefnyddio is-bwerau i ddeddfu'n ei gwneud yn ofynnol paratoi Asesiad Effaith Rheoleiddiol.  Fel y cyfryw, dim ond pan ddaw'r broses honno i ben y daw union natur y safonau a osodir ar gyrff dan y fframwaith a bennir gan y Mesur arfaethedig yn glir.  Dywed y Memorandwm Esboniadol[17] nad yw cost gyffredinol cydymffurfio â chynlluniau wedi'i mesur yn rheolaidd.

11.  Mae'r Memorandwm Esboniadol yn mynd ymlaen i ddweud[18] bod gan fwyafrif llethol y sefydliadau sy'n dod o fewn cwmpas Deddf 1993, ac sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, gynlluniau iaith eisoes ar waith.  Dywed y Memorandwm Esboniadol y dylent, felly, fod yn darparu ystod o wasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd eisoes. Felly nid oes disgwyl y bydd cyflwyno safonau'n gosod baich ariannol newydd sylweddol ar y sefydliadau yr effeithir arnynt.  Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi nad yw cost defnyddio'r Saesneg i ddarparu gwasanaeth yn rhywbeth sy'n cael ei fesur yn rheolaidd, a dywed y dylid cymhwyso'r un egwyddor i'r Gymraeg.

**Sefydliadau y gosodir dyletswyddau arnynt**

12.  Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi ffigyrau ar gyfer y costau y mae'n debygol y bydd yn rhaid i sefydliadau eu talu, nifer y sefydliadau y bydd y Mesur hwn yn effeithio arnynt, y safonau y bydd gofyn iddynt eu cyflawni neu'r system reoleiddio a fydd yn eu gorfodi. Dywed[19] nad yw costau cydymffurfio â Chynlluniau Iaith dan Ddeddf 1993 wedi'u mesur yn rheolaidd, ac felly ei bod yn anodd darparu unrhyw amcangyfrif manwl gywir o'r costau sy'n gysylltiedig â chydymffurfio â'r dyletswyddau.  Mae'n cyfeirio at ystod o faterion a allai effeithio ar sefydliad sy'n gorfod cydymffurfio, gan gynnwys dull y Comisiynydd o weithredu wrth osod safonau, yr amserlenni ar gyfer eu gweithredu, a maint y sefydliad.

13.  Dywed y Memorandwm Esboniadol 'Mae ymchwil ddiweddar gan y Bwrdd' yn rhoi cipolwg ar ystod y costau a allai godi wrth roi eu cynlluniau ar waith[20].  Mae hyn yn awgrymu[21] costau 'nodweddiadol' ar gyfer sefydliadau sy'n gweithredu cynlluniau iaith o £1,000 y flwyddyn

---

[16] Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru), Memorandwm Esboniadol, para 8.22
[17] Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru), Memorandwm Esboniadol, para 8.24
[18] Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru), Memorandwm Esboniadol, para 8.25
[19] Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru), Memorandwm Esboniadol, para 8.27
[20] Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru), Memorandwm Esboniadol, para 8.28
[21] Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru), Memorandwm Esboniadol, para 8.29

ar y mwyaf ar gyfer sefydliadau bach, £100,000 ar y mwyaf ar gyfer sefydliadau canolig a £200,000 ar gyfer sefydliadau mawr. Mae'n mynd ymlaen i ddweud[22] na fyddai'n briodol ceisio defnyddio'r ffigyrau hyn i amcangyfrif cyfanswm y costau ar gyfer y mathau o sefydliadau a restrir yn Atodlen 6 y Mesur arfaethedig, ac na fyddai'r ffigyrau hynny'n fanwl gywir. Yn yr un modd, dywed y Memorandwm Esboniadol[23] na ellir rhagweld y costau yn achos y sefydliadau yn Atodlen 8 cyn ymgynghori ynghylch y safonau a fydd yn berthnasol iddynt. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi[24] mai polisi cyffredinol y Llywodraeth yw peidio â gosod dyletswyddau ar fusnesau bach.

## <u>Trafodaeth</u>

14. Wrth archwilio agweddau ariannol ar Fesur arfaethedig, nid yw'r Pwyllgor Cyllid yn arddel barn ynglŷn â theilyngdod y bwriad polisi sydd wrth wraidd y Mesur, ond ei fwriad yw archwilio effaith ariannol y cynigion er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gan wybod beth yw eu goblygiadau ariannol. Mewn sawl achos, gellir gweld hyn yng nghyd-destun yr angen i'r Llywodraeth wneud darpariaeth gyllidebol ar gyfer y dyfodol er mwyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym. Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi nodi mewn adroddiadau blaenorol y gall asesiad annigonol o oblygiadau ariannol polisi neu ddeddfwriaeth arwain at ddarpariaeth gyllidebol annigonol, a'r risg y bydd hyn yn arwain at fethu â chyflenwi polisi oherwydd bod yr arian yn dod i ben. Fel arall, os bydd asesiad ariannol annigonol yn arwain at ddarparu cyllideb sy'n fwy na'r hyn sydd ei angen, gall hyn arwain at wrthod cronfeydd yn ddiangen i raglenni a pholisïau eraill.

15. Mae'r Mesur arfaethedig hwn yn un o nifer y mae'r Llywodraeth yn eu cyflwyno a all gael effaith sylweddol ar sefydliadau allanol, ac mae'r Pwyllgor Cyllid o'r farn y dylai'r Cynulliad, wrth ddeddfu, fod yn ymwybodol o effaith ariannol y ddeddfwriaeth ar sefydliadau o'r fath, a bod wedi craffu arni'n briodol.

### Swydd y Comisiynydd

16. Nododd y Pwyllgor Cyllid mai modd cyffredinol y Mesur arfaethedig o drin costau sefydlu swydd y Comisiynydd oedd eu talu

[22] Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru), Memorandwm Esboniadol, para 8.30
[23] Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru), Memorandwm Esboniadol, para 8.31
[24] Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru), Memorandwm Esboniadol, para 8.32

o'r arian a ddarperir ar hyn o bryd ar gyfer Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Dywedodd y Gweinidog dros Dreftadaeth[25] wrth y Pwyllgor mai'r disgwyl oedd y byddai angen adnoddau ar lefel debyg i gyflawni'r swyddogaethau rheoleiddio a hybu dan y trefniadau newydd. Pan ofynnwyd i'r Gweinidog p'un a fyddai'r system newydd yn fwy cymhleth neu fiwrocrataidd, dywedodd[26] nad oedd yn meddwl y byddai. Er y byddai angen "llawer o waith" ar y dechrau i greu'r safonau a'u gorfodi, unwaith y byddai system ar waith, fe fyddai'n symlach o lawer. Dywedodd y Gweinidog[27] y byddai gan y Comisiynydd lawer o waith i'w wneud yn ystod y 2 neu 3 blynedd cyntaf i sefydlu'r system newydd ond, yn y tymor hir, roedd yn hyderus y bydd y system hon yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu rhyddhau. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi sylw'r Gweinidog, ond mae'n rhyw bryderu bod hyn yn uchelgeisiol.

17. Gofynnodd y Pwyllgor Cyllid i Fwrdd yr Iaith Gymraeg am eu barn ar y costau tebygol a fydd ynghlwm â sefydlu swydd y Comisiynydd. Dywedasant[28] ei bod yn anodd ymateb gan y bydd rôl y comisiynydd yn eithaf gwahanol i rôl bresennol y bwrdd ac nad oedd unrhyw ddisgrifiad o raddau rôl y comisiynydd ar hyn o bryd. Dywedasant hefyd eu bod wedi darparu dogfen i'r Llywodraeth yn nodi'n gryno cost cynnal cynllun Iaith a'i roi ar waith. Ond ni fuont yn rhan o unrhyw drafodaeth na gwaith i fodelu swm cynyddol y gwaith sy'n debygol o godi yn sgil y Mesur arfaethedig.

**Nifer y sefydliadau y bydd y safonau'n effeithio arnynt**

18. Nododd y Pwyllgor fod y Memorandwm Esboniadol yn dweud[29] bod gan oddeutu 550 o sefydliadau gynlluniau iaith ar hyn o bryd, a gofynnodd i'r Gweinidog dros Dreftadaeth sawl sefydliad yr oedd yn disgwyl y byddai safonau'n cael eu gorfodi arnynt. Ymatebodd y Gweinidog[30] trwy ddweud y bydd yr holl sefydliadau sydd wedi'u cynnwys ar hyn o bryd yn cael eu cynnwys, a bod yna sectorau eraill y bydd pwerau newydd y Mesur arfaethedig yn eu dwyn i mewn, a fydd yn ychwanegu at y dimensiynau. Fodd bynnag, ni chynigiodd ef na swyddogion ffigur. Nododd y Pwyllgor, o ystyried yr enwau yn atodlen y Mesur arfaethedig, ei bod yn debygol y bydd y nifer yn y miloedd.

---

[25] Cofnod y Trafodion t12, 17 Mehefin, Pwyllgor Cyllid
[26] Cofnod y Trafodion t14, 17 Mehefin, Pwyllgor Cyllid
[27] Cofnod y Trafodion t39, 17 Mehefin, Pwyllgor Cyllid
[28] Cofnod y Trafodion t208, 1 Gorffennaf, Pwyllgor Cyllid
[29] Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru), Memorandwm Esboniadol, para 8.27
[30] Cofnod y Trafodion t66, 17 Mehefin, Pwyllgor Cyllid

Wrth wneud sylw ar hyn, dywedodd y Gweinidog[31] ei bod yn bwysig bod y safonau'n darparu hyblygrwydd, ac y byddai angen i'r Comisiynydd ystyried rhesymoldeb a chymesuredd.

**Costau ar gyfer sefydliadau allanol**

19. Roedd y Pwyllgor yn pryderu ynglŷn â'r costau y byddai'n rhaid i sefydliadau eu talu er mwyn iddynt gydymffurfio â'r safonau, ac ynglŷn â diffyg gwybodaeth am y rhain yn y Memorandwm Esboniadol. Cyfaddefodd y Gweinidog dros Dreftadaeth[32] fod hyn yn faes anodd, ond nododd fod yna 35 mlynedd o brofiad o ddarparu gwasanaethau dwyieithog ledled Cymru a bod nifer o gwmnïau'n gwneud hyn eisoes. Yr hyn yr oedd y Llywodraeth yn gofyn amdano oedd amodau sydd yr un fath i bob cwsmer. Aeth ymlaen i ddweud[33], er nad yw'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi dadansoddiad manwl o'r costau hyn, byddai asesiad effaith rheoleiddiol yn cael ei gwblhau ar y pryd ar gyfer unrhyw set o ddyletswyddau a osodir ar unrhyw un.

20. Nododd y Pwyllgor dystiolaeth a gyflwynwyd i Bwyllgor Deddfwriaethol 2 gan Gydffederasiwn Diwydiant Prydain[34], y Grŵp Band Eang Symudol[35], a rhai o'r cwmnïau cyfleustodau, gan gynnwys Scottish Power[36], a ddywedodd y byddai'r Mesur arfaethedig yn golygu costau sylweddol iddyn nhw, fel cwmnïau byd-eang. Gofynnodd rhai Aelodau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth[37] a fyddai cwmnïau'n ystyried bod gofynion y Mesur arfaethedig yn eu hannog i beidio â buddsoddi yng Nghymru.

21. Wrth ymateb, dywedodd y Gweinidog[38] nad oedd yn meddwl y byddai hyn yn digwydd. Mae sawl cwmni preifat eisoes wedi dangos eu hymrwymiad i'r Gymraeg mewn amryw o ffyrdd, ac roedd yn meddwl y byddent yn parhau i wneud hynny. Ychwanegodd y dylid bod yn bwyllog wrth drin amcangyfrifon o unrhyw gostau sydd wedi'u darparu gan nad yw'r safonau wedi'u datblygu na'u gorfodi hyd yma. Dywedodd na allai, felly, ragweld y costau go iawn, ond pwysleisiodd y ffaith y byddai asesiadau effaith yn cael eu cwblhau ochr yn ochr â'r

[31] Cofnod y Trafodion t77, 17 Mehefin, Pwyllgor Cyllid
[32] Cofnod y Trafodion t97, 17 Mehefin, Pwyllgor Cyllid
[33] Cofnod y Trafodion t101, 17 Mehefin, Pwyllgor Cyllid
[34] Cofnod y Trafodion, 10 Mehefin, Pwyllgor Deddfwriaethol 2
[35] Pwyllgor Deddfwriaethol 2 LC2(3)-09-10 papur 3, *Mobile Broadband Group,* 13 Mai 2010
[36] Pwyllgor Deddfwriaethol 2 LC2(3)-08-10 papur 3, *Scottish Power,* 29 Ebrill 2010
[37] Cofnod y Trafodion t114, 17 Mehefin, Pwyllgor Cyllid
[38] Cofnod y Trafodion t115, 17 Mehefin, Pwyllgor Cyllid

dyletswyddau, a bod yn rhaid i'r gofynion fod yn rhesymol ac yn gymesur.

**Safonau**

22. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi'r diffyg manylion ariannol sydd ar gael am y safonau ar hyn o bryd, gan mai is-ddeddfwriaeth fydd yn gosod y rhain. Mae'n annog y Llywodraeth yn gryf i sicrhau, wrth ystyried rhesymoldeb ariannol safonau, bod y Llywodraeth yn mynd ati i gynnwys rhagdybiau digonol a mesuradwy yn y profion cymesuredd er mwyn ystyried yr amrywiadau yn y defnydd o'r Gymraeg.

**Heriau**

23. Roedd y Pwyllgor yn pryderu y byddai'r gofynion newydd a'r dull newydd o weithredu a gynigir yn y Mesur yn arwain at nifer cynyddol o heriau. Gofynnodd aelodau p'un a fyddai cynnydd mewn costau cyfreithiol gan y byddai cymorth cyfreithiol ar gael i'r rheini y byddai ei eisiau arnynt. Dywedodd y Gweinidog dros Dreftadaeth[39] nad oedd yn rhagweld y byddai unrhyw gostau anferthol yn sgil hyn. Dywedodd swyddogion wrth y Pwyllgor[40] mai prin iawn yw'r achosion yn ymwneud â'r Gymraeg sydd wedi mynd i'r llys yn hanesyddol. Eu gobaith oedd y bydd y darpariaethau yn y Mesur arfaethedig sy'n delio â'r rhyddid i siarad Cymraeg yn cwtogi ar nifer yr achosion hynny.

**Costau i Lywodraeth Cynulliad Cymru eu talu'n uniongyrchol**

24. O ran y costau y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru'n eu talu'n uniongyrchol, dywedodd y Gweinidog dros Dreftadaeth y byddai'r £200,000 am reoli gweithredu'r prosiect, sef costau cyflogau staff, yn cael eu talu o gostau rhedeg Adrannol yr Adran Dreftadaeth[41].

## Casgliad

25. Y bwriad yw y bydd y rhan fwyaf o arian y Llywodraeth ar gyfer Mesur Arfaethedig y Gymraeg yn dod o'r gyllideb o £13.8miliwn sy'n cefnogi Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar hyn o bryd. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi nifer o weithgareddau newydd a diwygiedig y bydd angen eu hariannu o'r gronfa hon, ond prin iawn yw'r dadansoddiad ynddo o'u heffaith ar raglenni presennol, neu ar lefelau gweithgareddau yn y dyfodol, ac felly eu heffeithiau tebygol ar ofynion

---

[39] Cofnod y Trafodion t16, 17 Mehefin, Pwyllgor Cyllid
[40] Cofnod y Trafodion t20, 17 Mehefin, Pwyllgor Cyllid
[41] Pwyllgor Cyllid FIN (3)-12-10 papur 4, *Goblygiadau Ariannol Mesur Arfaethedig y Gymraeg – Gwybodaeth bellach gan y Gweninidog dros Dreftadaeth,* 1 Gorffennaf 2010

ariannu.  Nid oedd y Pwyllgor yn gallu llunio barn ddeallus o ystyried y diffyg manylion yn y Memorandwm Esboniadol.

26.  Mae yna hefyd wariant rhagweledig o oddeutu £200,000 a ddaw yn uniongyrchol o gyllidebau'r Llywodraeth.  Swm cymharol fach yw hwn, ac ni ddarperir rhyw lawer o fanylion.  Dywedodd y Gweinidog dros Dreftadaeth y byddai'r £200,000 ar gyfer gweithredu'r prosiect yn cael ei dalu o gostau rhedeg Adrannol yr Adran Dreftadaeth, ond nid yw hyn yn cynnwys cost paratoi Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer pob safon[42].

27.  Er bod y Memorandwm Esboniadol yn amlinellu rhai o'r ffactorau costau posibl y bydd yn rhaid i sefydliadau allanol 'nodweddiadol' a fydd yn gorfod cydymffurfio â safonau yn y dyfodol eu talu, mae'r rhain wedi'u seilio ar ymchwil gyfyngedig iawn.  Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn awgrymu nad yw hyn yn darparu sail i'w ddefnyddio i amcangyfrif cyfanswm y costau a ddaw i ran sefydliadau y mae'r Mesur arfaethedig yn effeithio arnynt.  Felly nid oes unrhyw wybodaeth gadarn yn y Memorandwm Esboniadol y gellir ei defnyddio i asesu effaith ariannol gyffredinol bosibl y mesur ar sefydliadau allanol.

28.  Awgrymodd y dystiolaeth a dderbyniwyd oddi wrth y sector masnachol y gallai cwmnïau byd-eang ystyried bod y costau sy'n gysylltiedig â'r Mesur arfaethedig yn gostau sylweddol.  Fodd bynnag, mae'r diffyg gwybodaeth yn y Memorandwm Esboniadol yn ei gwneud yn anodd i'r Pwyllgor a'r rheini y mae'r Mesur yn effeithio arnynt asesu ei effaith ariannol.

29.  Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi barn y Gweinidog ei bod yn annhebygol y bydd nifer yr heriau ac, yn fwy penodol, costau'r rhain yn cynyddu yn sgil y Mesur arfaethedig.  Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn ystyried nad oes digon o dystiolaeth i lunio barn.

30.  Mae'r Pwyllgor Cyllid yn derbyn y bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cyd-fynd â rheoliadau a safonau yn y dyfodol.  Fodd bynnag, mae o'r farn y dylid cyflwyno gwybodaeth ddigonol i gefnogi mesur 'galluogi' er mwyn caniatáu dealltwriaeth gytbwys o'i oblygiadau ariannol, gan nad yw is-ddeddfwriaeth fel rheol yn denu

---

[42] Pwyllgor Cyllid FIN (3)-12-10 papur 4, *Goblygiadau Ariannol Mesur Arfaethedig y Gymraeg – Gwybodaeth bellach gan y Gweninidog dros Dreftadaeth,* 1 Gorffennaf 2010

cymaint o graffu.  Mae diffyg dadansoddiad, manylion a gwybodaeth ariannol ddigonol yn ystod y cyfnod hwn yn ei gwneud yn anodd i'r Pwyllgor Cyllid wneud asesiad priodol o oblygiadau ariannol llawn y Mesur arfaethedig hwn.

31. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn galw ar y Llywodraeth i sicrhau, pan osodir is-ddeddfwriaeth i sefydlu safonau, ei bod yn destun craffu ariannol llawn.

**Angela Burns**
**Cadeirydd, y Pwyllgor Cyllid**